

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Papur ymchwil

# Cymru a Refferendwm Annibyniaeth yr Alban

Medi 2013

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



Y Gwasanaeth  
Ymchwil

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gfael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:  
[www.cynulliadcymru.org/research](http://www.cynulliadcymru.org/research)

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

E-bost: [Research.Service@wales.gov.uk](mailto:Research.Service@wales.gov.uk)  
Twitter: @YmchwilCCC

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 13/2038  
Rhif dogfen:13/064

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru Papur ymchwil

# Cymru a Refferendwm Annibyniaeth yr Alban

Medi 2013

Owain Roberts

Ddydd Iau, 18 Medi 2014, caiff refferendwm ei gynnal yn yr Alban i benderfynu a yw am aros yn rhan o'r Deyrnas Unedig ynteu am fod yn wladwriaeth annibynnol. Y bleidlais hon fydd y penderfyniad gwleidyddol pwysicaf y bydd yr Alban yn ei wneud ers canrifoedd, ers pasio'r Deddfau Uno presennol gan Senedd Lloegr a Senedd yr Alban yn 1707.

Mae'r papur hwn yn rhoi llinell amser o ddigwyddiadau a datblygiadau gwleidyddol sydd wedi arwain at y refferendwm ei hun, crynodeb o'r prif themâu a'r prif faterion yn ymgyrch y refferendwm hyd yma, ac amlinelliad o'r effaith y bydd canlyniad y refferendwm yn ei chael ar Gymru.

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



Y Gwasanaeth  
Ymchwil



# Cynnwys

<b>1.</b>	<b>Cyflwyniad</b> .....	<b>1</b>
<b>2.</b>	<b>Llinell amser: Y llwybr at refferendwm</b> .....	<b>2</b>
2.1.	Sgwrs Genedlaethol, Comisiwn Calman a Deddf yr Alban 2012 .....	2
2.2.	Etholiadau Senedd yr Alban 2011 .....	4
2.3.	Cytundeb Caeredin.....	6
2.4.	Biliau'r Refferendwm .....	7
2.5.	Ymchwiliad Pwyllgor Materion yr Alban.....	8
<b>3.</b>	<b>Ymgyrch y refferendwm: Themâu a materion</b> .....	<b>9</b>
3.1.	Y Grwpiau Ymgyrchu .....	9
3.2.	Barn y cyhoedd .....	10
3.3.	Economi, Arian ac Olew Môr y Gogledd.....	11
3.4.	Ynni.....	14
3.5.	Amddiffyn a Trident .....	16
3.6.	Cyfansoddiad ysgrifenedig .....	18
3.7.	Aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd.....	20
3.8.	Undeb cymdeithasol? .....	22
3.9.	Y canlyniadau yn sgil pleidlais 'Na': dewisiadau cyfansoddiadol eraill	22
<b>4.</b>	<b>Y goblygiadau i Gymru</b> .....	<b>24</b>



# Cymru a Refferendwm Annibyniaeth yr Alban

## 1. Cyflwyniad

Ddydd Iau, **18 Medi 2014**, caiff refferendwm ei gynnal yn yr Alban i benderfynu a yw am aros yn rhan o'r Deyrnas Unedig ynteu am fod yn wladwriaeth annibynnol. Y bleidlais hon fydd y penderfyniad gwleidyddol pwysicaf y bydd yr Alban yn ei wneud ers canrifoedd, ers pasio'r **Deddfau Uno** presennol gan Senedd Lloegr a Senedd yr Alban yn **1707**.

Mae'r refferendwm yn benllanw nifer o ddatblygiadau gwleidyddol ers sefydlu Llywodraeth gyntaf yr SNP yn yr Alban yn 2007, a daw yn sgil cytundeb hanesyddol rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth yr Alban sy'n caniatáu i refferendwm ddigwydd ar ymwahaniad yr Alban.

Er na fydd y canlyniad yn effeithio'n uniongyrchol ar Gymru, mae'r refferendwm yn debygol o gael effaith sylweddol ar setliad datganoli Cymru ac ar strwythurau cyfansoddiadol presennol y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd. Beth bynnag fydd y canlyniad, bydd y bleidlais yn codi cwestiynau sylfaenol am ddyfodol y Deyrnas Unedig a natur y setliadau cyfansoddiadol ymhob un o'r gwledydd sy'n rhan ohoni.

Mae'r papur hwn yn rhoi llinell amser o ddigwyddiadau a datblygiadau gwleidyddol sydd wedi arwain at y refferendwm ei hun, crynodeb o'r prif themâu a'r prif faterion yn ymgyrch y refferendwm hyd yma, ac amlinelliad o'r effaith y bydd canlyniad y refferendwm yn ei chael ar Gymru.

## 2. Llinell amser: Y llwybr at refferendwm

### 2.1. *Sgwrs Genedlaethol, Comisiwn Calman a Deddf yr Alban 2012*

Ar 14 Awst 2007, cyhoeddodd Llywodraeth newydd leiafrifol yr SNP yn yr Alban bapur yn dwyn y teitl [Choosing Scotland's future: a National Conversation: Independence and responsibility in the modern world](#). Bwriad y papur oedd bod yn gam cyntaf o ran hyrwyddo 'Sgwrs Genedlaethol' ar ddyfodol cyfansoddiadol yr Alban, ac roedd yn cynnwys dewisiadau ar gyfer newid cyfansoddiadol, a oedd yn cynnwys annibyniaeth yn ogystal â rhagor o bwerau i Senedd yr Alban.

Fodd bynnag, arweiniodd cyhoeddi'r ddogfen ar y Sgwrs Genedlaethol at uno'r tair prif wrthblaid unoliaethol yn Holyrood. Ar 13 Awst 2007 adroddodd y BBC fod arweinwyr y Blaid Lafur, y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn Senedd yr Alban ar y pryd, sef y Gwir Anrhydeddus Jack McConnell ASA, Annabel Goldie ASA a Nicol Stephen ASA wedi cyhoeddi datganiad ar y cyd yn amlinellu eu gwrthwynebiad i gynlluniau'r llywodraeth i gyhoeddi papur gwyn ar refferendwm annibyniaeth.<sup>1</sup>

Parhaodd trafodaethau rhwng y gwrthbleidiau ynghylch sut i fwrw ymlaen â'u gwrthwynebiad i'r 'Sgwrs Genedlaethol' drwy gydol hydref 2007, ac ar 6 Rhagfyr ysgogwyd dadl ganddynt yn Senedd yr Alban ar y cynnig canlynol o'r enw 'A New Agenda for Scotland':

That the Parliament, recognising mainstream public opinion in Scotland, **supports the establishment of an independently chaired commission to review devolution in Scotland** [*pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil*]; encourages UK Parliamentarians and parties to support this commission also and proposes that the remit of this commission should be:

*To review the provisions of the Scotland Act 1998 in the light of experience and to recommend any changes to the present constitutional arrangements that would enable the Scottish Parliament to better serve the people of Scotland, that would improve the financial accountability of the Scottish Parliament and that would continue to secure the position of Scotland within the United Kingdom, and further instructs the Scottish Parliamentary Corporate Body to allocate appropriate resources and funding for this review.*<sup>2</sup>

Pasiwyd y cynnig o 76 pleidlais i 46, gyda thri aelod yn atal eu pleidlais. Cefnogwyd y cynnig gan y Blaid Lafur, y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Blaid Geidwadol, ac fe'i gwrthwynebwyd gan Blaid Genedlaethol yr Alban (yr SNP). Ataliodd dau Aelod o'r Blaid Werdd ac un Aelod annibynnol eu pleidlais.<sup>3</sup>

---

<sup>1</sup> Newyddion y BBC [Independence statement in full](#) 13 Awst 2007

<sup>2</sup> [A New Agenda for Scotland](#), S3M-00976, 4 Rhagfyr 2007

<sup>3</sup> Mae rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn Calman ar gael yn Nodyn Safonol Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, [The Commission on Scottish Devolution - the Calman Commission](#), 4 Mehefin 2010



Cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei chefnogaeth i'r Comisiwn yn fuan wedyn ym mis **Ionawr 2008**, ac ar **25 Mawrth 2008** cafodd y Comisiwn ar Ddatganoli yn yr Alban, o dan gadeiryddiaeth Syr Kenneth Calman ('Comisiwn Calman') ei gyhoeddi'n ffurfiol gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban ar y pryd, y Gwir Anrhydeddus Des Browne AS.<sup>4</sup>

Cyhoeddodd y Comisiwn ei adroddiad terfynol, [\*\*Serving Scotland Better: Scotland and the United Kingdom in the 21<sup>st</sup> Century\*\*](#), ym mis **Mehefin 2009**. Gwnaeth yr adroddiad 63 o argymhellion. Bwriad yr argymhellion hyn, yn ôl Syr Kenneth Calman, oedd:

... to improve the financial accountability of the Scottish Parliament, to improve the distribution of powers and functions, to improve joint working between the Parliaments and Governments and encourage cooperation on shared interests, and to strengthen the operation of the Parliament itself. Taken together, we believe these recommendations will enable devolution to serve the people of Scotland better, while also consolidating Scotland's important place within the United Kingdom.<sup>5</sup>

Cyhoeddodd Llywodraeth Lafur flaenorol y Deyrnas Unedig Bapur Gwyn yn dwyn y teitl [\*\*Scotland's Future in the United Kingdom\*\*](#) ym mis **Tachwedd 2009**, a oedd yn bwrw ymlaen ag argymhellion Comisiwn Calman ac yn amlinellu cynlluniau ar gyfer Bil yr Alban a fyddai'n cael eu cyflwyno yn dilyn Etholiad Cyffredinol y Deyrnas Unedig ym mis Mai 2010.

Yn ogystal, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ei Phapur Gwyn ei hun mewn ymateb i adroddiad y Comisiwn ac ymgynghoriad y 'Sgwrs Genedlaethol', sef [\*\*Fiscal Autonomy in Scotland: Taking forward our National Conversation\*\*](#), ar **24 Chwefror 2009**. Roedd y papur yn amlinellu'r achos dros wella'r trefniadau ariannol presennol a'r dewisiadau ar gyfer rhagor o ddiwygio.<sup>6</sup>

Y flwyddyn ganlynol, rhwng mis **Chwefror a mis Ebrill 2010**, cynhaliodd Llywodraeth yr Alban ymgynghoriad ar fil drafft, [\*\*Scotland's Future: Draft Referendum \(Scotland\) Bill\*\*](#), a oedd yn amlinellu cynigion deddfwriaethol o ran mecanwaith refferendwm ar annibyniaeth, gan gynnwys y posibilrwydd o gynnig cwestiwn amlddewis ar y papur pleidleisio. Fodd bynnag, roedd y ddogfen ymgynghori'n pwysleisio'r canlynol:

**the referendum will be advisory, in that it will have no legislative effect.** However, the Scottish Government would expect the UK and Scottish Parliaments and the respective Governments to listen to the views of the Scottish people and act on them.<sup>7</sup>

---

<sup>4</sup> Dadl Tŷ'r Cyffredin 25 Mawrth 2008 cc7-8WS

<sup>5</sup> Y Comisiwn ar Ddatganoli yn yr Alban, [\*Neges gan y Cadeirydd, Syr Kenneth Calman\*](#), (Saesneg yn unig) 15 Mehefin 2009

<sup>6</sup> Llywodraeth yr Alban, [\*Fiscal Autonomy in Scotland: Taking forward our National Conversation\*](#), 24 Chwefror 2009

<sup>7</sup> Llywodraeth yr Alban, [\*Scotland's Future: Draft Referendum \(Scotland\) Bill Consultation Paper\*](#), 25 Chwefror 2010

Fodd bynnag, ni chafodd y Bil ei gyflwyno yn Senedd yr Alban cyn diddymu'r senedd ddiwedd mis Mawrth 2011.

Yn dilyn Etholiad Cyffredinol y Deyrnas Unedig ar **6 Mai 2010**, roedd [rhaglen lywodraethu](#) clymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cynnwys addewid i weithredu cynigion Comisiwn Calman yn yr Alban.<sup>8</sup> O ganlyniad, cyflwynwyd yr hyn a ddaeth wedyn i fod yn *Ddeddf yr Alban 2012*,<sup>9</sup> a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar **1 Mai 2012**. Mae'r Ddeddf yn gwella pwerau ariannol a threthu yr Alban drwy roi'r canlynol i Senedd yr Alban:

- cyfrifoldeb dros bennu **Cyfradd Treth Incwm yr Alban**;
- cymhwysedd deddfwriaethol dros **drethi ar drafodion tir a gwaredu drwy dirlenwi**, ynghyd â'r mecanwaith ar gyfer datganoli rhagor o gyfrifoldeb dros drethi yn y dyfodol;
- **pwerau benthyca** newydd;
- **cronfa arian i'r Alban** i reoli amrywiadau mewn derbyniadau treth wedi'u datganoli.

Roedd y Ddeddf hefyd yn datganoli cymhwysedd deddfwriaethol dros **rai arfau aer** i Senedd yr Alban, a'r pwerau gweithredol canlynol i Weinidogion yr Alban:

- Y pwerau i roi **trwyddedau dibyniaeth** (h.y. trwydded i roi, cyflenwi neu awdurdodi rhoi neu gyflenwi cyffuriau penodol a reolir i rywun sy'n ddibynnol ar gyffuriau a reolir) i feddygon sy'n gweithredu yn yr Alban;
- Y pŵer i wneud rheoliadau mewn perthynas â phennu'r **terfyn alcohol sy'n berthnasol wrth yrru** yn yr Alban;
- Y pŵer i benderfynu ar rai **terfynau cyflymder cenedlaethol yn yr Alban** a'r pŵer i wneud rheoliadau i bennu arwyddion traffig i nodi'r terfynau hynny.

---

<sup>8</sup> Swyddfa'r Cabinet, *The Coalition: our programme for government*, Mai 2010, t.28

<sup>9</sup> *Deddf yr Alban 2012* (Pennod 11)

## 2.2. Etholiadau Senedd yr Alban 2011

Rhoddodd etholiadau mis **Mai 2011** fuddugoliaeth lwyr i'r SNP, a enillodd 69 o'r 129 sedd gan sicrhau mwyafrif i'r blaid yn Senedd yr Alban am y tro cyntaf.<sup>10</sup> Golygai hyn fod modd i Lywodraeth yr Alban o dan arweiniad yr SNP fwrw ymlaen â'i hymrwymiad maniffesto i gyflwyno Bil Refferendwm ac i gynnal refferendwm ar annibyniaeth yr Alban yn ystod y Senedd hon.<sup>11</sup>

Ar **25 Ionawr 2012**, lansiodd Llywodraeth yr Alban ymgynghoriad arall ar Fil Refferendwm drafft o'r enw **Your Scotland, Your Referendum**. O ran cwestiwn y refferendwm, nodai'r papur mai dymuniad Llywodraeth yr Alban oedd gofyn cwestiwn byr, uniongyrchol am annibyniaeth.<sup>12</sup> Fodd bynnag, roedd y papur hefyd yn gofyn barn ynglŷn â'r posibilrwydd o gynnwys ail gwestiwn ar y papur pleidleisio, gan ychwanegu bod Llywodraeth yr Alban wedi ei gwneud yn eglur o'r cychwyn ei bod yn fodlon cynnwys cwestiwn ar ddatganoli sylweddol pellach yn y refferendwm.<sup>13</sup>

Roedd y papur hefyd yn pwysleisio parodrwydd Llywodraeth yr Alban i wneud y canlynol:

to work with the UK Government to agree a clarification of the Scotland Act 1998 that would remove their doubts about the competence of the Scottish Parliament and put the referendum effectively beyond legal challenge by the UK Government or any other party.<sup>14</sup>

Roedd hefyd yn datgan mai dymuniad Llywodraeth yr Alban fyddai bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cyflwyno gorchymyn Adran 30 o dan *Ddeddf yr Alban 1998*<sup>15</sup> a fyddai'n datganoli pwerau deddfu i Senedd yr Alban i'w galluogi i gyflwyno deddfwriaeth 'baratoi' ar gyfer cynnal refferendwm. Ychwanegodd Llywodraeth yr Alban ei bod yn fater o egwyddor ddemocrataidd mai Senedd yr Alban ddylai benderfynu ar amseriad a thelerau'r refferendwm a'r rheolau ar gyfer ei gynnal'.<sup>16</sup>

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar **11 Mai 2012**. Cafwyd cyfanswm o 26,219 o ymatebion dilys.<sup>17</sup>

---

<sup>10</sup> Newyddion BBC, *Vote 2011: Scotland elections*, 11 Mai 2011

<sup>11</sup> Plaid Genedlaethol yr Alban, *Scottish National Party Manifesto 2011: Re-elect a Scottish Government working for Scotland*, 2011, tudalen 30

<sup>12</sup> Llywodraeth yr Alban, *Your Scotland Your Referendum*, Ionawr 2012, crynodeb

<sup>13</sup> Ibid, paragraff 1.26

<sup>14</sup> Ibid, paragraff 1.8

<sup>15</sup> *Deddf yr Alban 1998* (Pennod 46) (Saesneg yn unig)

<sup>16</sup> Llywodraeth yr Alban, *Your Scotland Your Referendum*, Ionawr 2012, paragraff 1.9

<sup>17</sup> Mae dadansoddiad manwl o ymatebion yr ymgynghoriad wedi ei gyhoeddi gan Lywodraeth yr Alban *Your Scotland, your referendum: an analysis of consultation responses*, 2012

### 2.3. Cytundeb Caeredin

Ar 15 Hydref 2012, llofnododd Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth yr Alban [Gytundeb ar refferendwm annibyniaeth i'r Alban](#) (a elwir hefyd yn 'Gytundeb Caeredin'). O dan y cytundeb, byddai Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cyflwyno gorchymyn Adran 30 a fyddai'n rhoi pwerau i Senedd yr Alban gyflwyno deddfwriaeth i gynnal **refferendwm un cwestiwn ar annibyniaeth yr Alban i'w gynnal cyn diwedd 2014**. Roedd y cytundeb hefyd yn paratoi'r ffordd i **bobl 16 a 17 oed** gymryd rhan yn y bleidlais ac yn sicrhau rôl o bwys i'r **Comisiwn Etholiadol** o ran cynghori ar eiriad y cwestiwn, cynnal y refferendwm ei hun a goruchwyllo cyllid yr ymgyrch.

Roedd [memorandwm cytundeb](#), [Gorchymyn drafft](#) a [nodyn polisi](#) yn rhan o'r Cytundeb. Wedi hynny gosodwyd *Gorchymyn Deddf yr Alban (Addasu Atodlen 5) 2013*<sup>18</sup> yn Senedd y Deyrnas Unedig a Senedd yr Alban ar 22 Hydref 2012 a chafodd ei ystyried a'i gymeradwyo gan Dŷ'r Cyffredin ar 15 Ionawr 2013<sup>19</sup> a chan Dŷ'r Arglwyddi ar 16 Ionawr 2013.<sup>20</sup> Cymeradwyodd Senedd yr Alban y Gorchymyn ar 5 Rhagfyr 2012,<sup>21</sup> yn dilyn ystyriaeth gan [Bwyllgor Bil Refferendwm \(yr Alban\)](#) yno. Daeth y gorchymyn i rym a datganolwyd y pwerau'n ffurfiol i Senedd yr Alban ar 13 Chwefror 2013.

Yn ogystal, ystyriwyd cynnwys Cytundeb Caeredin a'r Gorchymyn gan Bwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi, a gyhoeddodd adroddiad ar 13 Tachwedd 2012 o'r enw [The Agreement on a referendum on independence for Scotland](#). Roedd yr adroddiad yn cwestiynu a fyddai 'Gorchymyn Adran 30' yn ddigon cadarn i ddiogelu'r penderfyniad i gynnal refferendwm rhag her gyfreithiol. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn derbyn y byddai unrhyw her yn annhebygol o lwyddo,<sup>22</sup> ffaith a ategwyd gan rai arbenigwyr cyfreithiol yn yr Alban ar ôl cyhoeddi'r adroddiad.<sup>23</sup>

---

<sup>18</sup> [Gorchymyn Deddf yr Alban 1998 \(Addasu Atodlen 5\) 2013](#) OS 2013/242 (Saesneg yn unig)

<sup>19</sup> [Dadl Tŷ'r Cyffredin 15 Ionawr 2013 c742](#)

<sup>20</sup> [Dadl Tŷ'r Cyffredin 16 Ionawr 2013 c694](#)

<sup>21</sup> Senedd yr Alban, [Official Report](#), 5 Rhagfyr 2012

<sup>22</sup> The Telegraph, [Lords: Scottish independence referendum deal could be declared 'unlawful'](#), 13 Tachwedd 2012

<sup>23</sup> The Scotsman, [Scottish independence: Single question was 'red line issue' for Westminster - Sturgeon](#), 15 Tachwedd 2012

## 2.4. Biliau'r Refferendwm

Ar ôl i'r gorchymyn ddod i rym, mae Llywodraeth yr Alban wedi cyflwyno'r Biliau canlynol, sydd â'r nod o gynnis fframwaith cyfreithiol ar gyfer cynnal y refferendwm:

- Cyflwynwyd *Bil Refferendwm Annibyniaeth yr Alban (Etholfraint)*<sup>24</sup> gan Ddirprwy Brif Weinidog yr Alban ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Seilwaith, Buddsoddi a Dinasoedd, Nicola Sturgeon ASA, ar **11 Mawrth 2013**. Pasiwyd y Bil gan Senedd yr Alban ar **27 Mehefin 2013**. Cafodd Gydsyniad Brenhinol ar 7 Awst 2013.
- Yn dilyn y Bil etholfraint, cyflwynwyd *Bil Refferendwm Annibyniaeth yr Alban*<sup>25</sup> ar **21 Mawrth 2013**. Cytunodd Senedd yr Alban gydag egwyddorion cyffredinol y Bil yn ystod Cyfnod 1 y broses ddeddfu ar **12 Medi 2013**. Ar hyn o bryd mae ar Gyfnod 2 yn y broses ddeddfu. Disgwylir i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol yn ddiweddarach eleni.

Gyda'i gilydd, mae'r Biliau hyn yn darparu ar gyfer y canlynol:

- Bydd y refferendwm yn cael ei gynnal ar **18 Medi 2014**;
- Y cwestiwn ar y papur pleidleisio fydd '**A ddylai'r Alban fod yn wlad annibynnol?**';
- Bydd yr **etholfraint ar gyfer y refferendwm yn cynnwys pobl 16 a 17 oed**;
- Caiff y refferendwm ei reoleiddio gan **reolau ymgyrchu** penodol fel y'u hamlinellir ym *Mil Refferendwm Annibyniaeth yr Alban* sy'n diwygio'r rheolau ymgyrchu presennol ar gyfer refferendwm fel y'u nodir yn *Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000*<sup>26</sup> ('PPERA 2000') (mae rhagor o wybodaeth am reolau ymgyrchu'r refferendwm i'w gweld yn [House of Commons Standard Note: Scottish referendum – campaign rules](#)).

Mae'r diwygiadau hyn yn cynnwys galluogi'r Comisiwn Etholiadol i ddynodi grŵp ymgyrchu ar un ochr yr ymgyrch yn unig, os mai dim ond un sefydliad addas sydd. Mae hyn yn wahanol i'r rheolau ymgyrchu ar gyfer refferendwm mis Mawrth 2011 ar ragor o bwerau i'r Cynulliad, a oedd yn golygu, o ddilyn rheolau PPERA 2000, bod rhaid cael sefydliadau priodol ar ddwy ochr y ddadl cyn y gallai'r Comisiwn Etholiadol bennu ymgyrchoedd swyddogol. Roedd hyn yn golygu bod modd i grŵp yr ymgyrch 'na' sef 'Cymru Wir' beidio â gwneud cais i fod yn ymgyrch swyddogol, a thrwy wneud hynny, gyfyngu ar faint o arian y gallai'r grŵp 'le' swyddogol ei wario yn ystod yr ymgyrch.

---

<sup>24</sup> *Bil Refferendwm Annibyniaeth yr Alban (Etholfraint)* [fel y'i cyflwynwyd] (Saesneg yn unig)

<sup>25</sup> *Bil Refferendwm Annibyniaeth yr Alban* [fel y'i cyflwynwyd] (Saesneg yn unig)

<sup>26</sup> *Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000* (Pennod 41) (Saesneg yn unig)

Yn ogystal â'r ddau Fil Refferendwm, mae Llywodraeth yr Alban hefyd wedi dweud y bydd yn cyhoeddi Papur Gwyn ar annibyniaeth yn ddiweddarach yn y flwyddyn, a fydd, yn ôl Dirprwy Brif Weinidog, Nicola Sturgeon ASA, yn helpu i gynnig atebion i Albanwyr sydd heb benderfynu sut y byddant yn pleidleisio cyn y refferendwm y flwyddyn nesaf.<sup>27</sup>

## 2.5. *Ymchwiliad Pwyllgor Materion yr Alban*

Er mis **Hydref 2011**, mae Pwyllgor Materion yr Alban Tŷ'r Cyffredin wedi cynnal ymchwiliad i'r **Refferendwm ar Ymwahanu yn yr Alban**. Hyd yma, mae'r Pwyllgor wedi cyhoeddi wyth adroddiad ar faterion unigol yn ymwneud â'r drafodaeth am annibyniaeth:

- Wythfed Adroddiad: **How would Separation affect jobs in the Scottish defence industry?**
- Seithfed Adroddiad: **Separation shuts shipyards**
- Chweched Adroddiad: **The proposed section 30 Order—Can a player also be the referee?**
- Pumed Adroddiad: **Terminating Trident—Days or Decades?**
- Pedwerydd Adroddiad: **A multi-option question?**
- Trydydd Adroddiad: **Making the process legal**
- Ail Adroddiad: **Do you agree this is a biased question?**
- Adroddiad Cyntaf: **Unanswered Questions**

Mae'r ymchwiliad yn parhau, ac mae tystiolaeth lafar yn dal i gael ei chasglu.

---

<sup>27</sup> The Scotsman, **Scottish independence: white paper answers vow**, 18 Medi 2013

### 3. Ymgyrch y refferendwm: Themâu a materion<sup>28</sup>

Rhoddir crynodeb o'r themâu a'r materion amlycaf yn ymgyrch y refferendwm hyd yma isod, ynghyd â manylion y grwpiau ymgyrchu swyddogol a'r data diweddaraf am farn y cyhoedd.

#### 3.1. Y Grwpiau Ymgyrchu

Cafodd grwpiau ymgyrchu 'Ie' a 'Na' eu sefydlu ar gyfer y refferendwm ym mis Mai a mis Mehefin 2012. Disgwylir y byddant yn gwneud cais i fod yn sefydliadau penodedig o dan reolau ymgyrchu'r refferendwm. Nodir eu manylion isod:

- Cafodd [Yes Scotland](#) ei lansio ym mis **Mai 2012**. **Blair Jenkins**, cyn-bennaeth newyddion a materion cyfoes BBC Scotland, yw cadeirydd y grŵp. Mae'n fudiad amhleidiol a gefnogir gan yr SNP, Plaid Werdd yr Alban, Plaid Sosialaidd yr Alban a'r Solidarity Party.
- Cafodd [Better Together](#) ei lansio ym mis **Mehefin 2012**. Y cyn Ganghellor, y **Gwir Anrhydeddus Alistair Darling AS**, yw cadeirydd y grŵp ac fe'i cefnogir gan bleidiau unoliaethol yr Alban.

O dan y rheolau ymgyrchu arfaethedig, ni fydd cyfnod rheoledig ymgyrch y refferendwm yn dechrau tan **30 Mai 2014** - ymgyrch refferendwm yn ystod yr 16 wythnos olaf sy'n arwain at refferendwm. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd rheolau ymgyrch y Comisiwn Etholiadol yn berthnasol, sy'n cyfyngu gwariant ar ymgyrchu fel a ganlyn:

- Bydd y sefydliadau penodedig, sef Yes Scotland a Better Together yn ôl pob disgwyl, yn cael terfyn gwario o **£1.5m** yr un;
- Byddai'r ddwy brif blaid sydd o blaid annibyniaeth, yr SNP a Gwyrddion yr Alban, yn cael gwario cyfanswm o **£1.49m**;
- Gall y pleidiau sydd o blaid y Deyrnas Unedig, sef y Blaid Lafur, y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol, wario hyd at **£1.43m** rhyngddynt;
- Bydd undebau llafur, grwpiau busnes a grwpiau dinesig eraill hefyd yn gallu cofrestru fel cyfranogwyr yn yr ymgyrch.<sup>29</sup>

---

<sup>28</sup> Mae llyfryddiaeth o erthyglau a chyhoeddiadau yn ymwneud â refferendwm annibyniaeth yr Alban wedi ei chyhoeddi gan Lyfrgell Tŷ'r Cyffredin, [Standard Note: Scotland: Referendum and independence. A select bibliography](#), 31 Gorffennaf 2013. Mae Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin hefyd wedi sefydlu [adran annibyniaeth yr Alban](#) ar ei gwefan (Saesneg yn unig).

<sup>29</sup> The Guardian, [Scottish independence: the essential guide](#), 23 Ebrill 2013

### 3.2. *Barn y cyhoedd*

Mae arolygon barn diweddar yn dangos bod cefnogaeth i annibyniaeth yn amrywio rhwng chwarter a thraean, tuedd sydd wedi aros yn ddigyfnewid ers i arolygon rheolaidd gychwyn ar agweddau cyfansoddiadol yn yr Alban ers dechrau datganoli ym 1999.<sup>30</sup>

Ers cytuno ar gwestiwn y papur pleidleisio ym mis Ionawr 2013, cynhaliwyd wyth arolwg barn, gan ddangos bod yr ochr 'Ie' yn sgorio 33 y cant ar gyfartaledd. Fodd bynnag, wrth ysgrifennu ar wefan amhleidiol [What Scotland Thinks](#), dywedodd yr Athro John Curtice o Brifysgol Strathclyde:

This headline figure is misleading. The remaining two-thirds of Scots are not all against independence. In all of the polls there is a not inconsiderable group of 'Don't Knows', ranging from 10% in an Ipsos-MORI poll conducted at the beginning of May to 20% in a Panelbase poll undertaken later that same month. (Ipsos-MORI's figure is low because their headline figures are based only on those who say they are certain to vote, a group that, unsurprisingly, is more likely to have a view on the subject.)

To see the referendum outcome to which the polls are really pointing, we need to take out the 'Don't Knows' and calculate what percentage of those with a stated view say they will vote Yes, and what proportion, No. This, after all, is standard practice when it comes to Holyrood or Westminster vote intentions – and our poll explorer enables you to see what the results are when calculated in that way. Doing so reveals that the average Yes vote is not 33% but 39% (with 61% saying No). Rather than being two to one behind, the Yes side is seemingly more like three to two behind.

Moreover, the polls do not all agree with each other. One company, Panelbase, has persistently painted a brighter picture for the Yes side than everyone else. Panelbase's average rating for the Yes side – once the Don't Knows are taken out – is 44%. Everyone else's, in contrast, is just 37%.<sup>31</sup>

---

<sup>30</sup> Newyddion y BBC, [Q&A: Scottish independence referendum](#), 15 Hydref 2012

<sup>31</sup> What Scotland Thinks, [Yes are behind - but how far?](#) 19 Mehefin 2013



### 3.3. *Economi, Arian ac Olew Môr y Gogledd*

Hyd yma, mae Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi canfyddiadau mewn nifer o bapurau sy'n amlinellu sut y gallai annibyniaeth effeithio ar economi'r Alban a'r newidiadau sy'n ofynnol i seilwaith macroeconomaidd presennol yr Alban petai annibyniaeth yn digwydd.

Ym mis Chwefror 2013, cyhoeddwyd [Fframwaith Macroeconomaidd](#) gan [Weithgor Comisiwn Ariannol](#) Llywodraeth yr Alban (sy'n un o is-grwpiau [Cyngor Cynghorwyr Economaidd](#) Llywodraeth yr Alban). Roedd y Fframwaith yn amlinellu **model macroeconomaidd arfaethedig ar gyfer Alban annibynnol**, a byddai'r prif nodweddion yn cynnwys:

- **Undeb ariannol** gyda gweddill y Deyrnas Unedig drwy greu 'Ardal Sterling', a Banc Lloegr yn parhau i fod yn Fanc Canolog yr Alban, gyda mewnbwn ffurfiol gan Lywodraeth yr Alban i drefniadau llywodraethu a chylch gwaith Banc Lloegr fel cyfrandaliwr diamwys.
- Yr Alban yn dod yn gyfrifol am **yr holl reoleiddio ariannol** - wedi'i lywio i raddau helaeth gan reoliadau a chyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd.
- Yr Alban yn cael **rheolaeth dros bob treth**, gan gynnwys annibyniaeth lawn o ran refeniw a gwariant (ac felly'n ennill sofraniaeth economaidd lawn).
- Yr Alban yn cael **aelodaeth a chynrychiolaeth lawn mewn sefydliadau ariannol rhyngwladol**.

Ymatebodd Llywodraeth yr Alban i adroddiad y Gweithgor yn fuan wedyn, ym mis **Ebrill 2013**, mewn papur o'r enw [Currency Choices for an Independent Scotland](#). O ran yr undeb ariannol arfaethedig gyda gweddill y Deyrnas Unedig, roedd y papur yn cytuno gyda chanfyddiadau Gweithgor y Comisiwn Ariannol, gan ddod i'r casgliad canlynol:

Agreeing a formal currency union would provide a workable currency from day one of independence. It will ensure that both future Scottish and UK Governments are able to use the economic levers of independence to secure growth for their respective countries - something which cannot happen under the status quo, whilst also securing benefits for both countries in terms of trade and competition and seeing both countries play a part in securing the future financial stability of the Sterling Zone monetary union.<sup>32</sup>

Fodd bynnag, roedd Llywodraeth yr Alban yn derbyn y byddai natur unrhyw fframwaith yn amodol ar drafodaeth, a galwodd ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ymuno mewn sgwrs i bennu manylion fframwaith o'r fath a fydd yn ddeniadol i'r Alban ac i'r Deyrnas Unedig.<sup>33 34</sup>

---

<sup>32</sup> Llywodraeth yr Alban, [Currency Choices for an Independent Scotland: Response to the Fiscal Commission Working Group](#), Ebrill 2013, paragraff 7.1

<sup>33</sup> Ibid

Cafodd canfyddiadau pellach Llywodraeth yr Alban ar y modd y byddai economi'r Alban yn gweithredu petai annibyniaeth yn digwydd eu cynnwys mewn papur dilynol, [Scotland's Economy: the case for independence](#), a gyhoeddwyd ym mis **Mai 2013**. Roedd y ddogfen yn rhoi dadansoddiad o economi'r Alban gan gynnwys, petai annibyniaeth yn digwydd, manylion sut y gallai arfau ychwanegol wella'i pherfformiad o bosibl. Wrth lansio'r papur, dywedodd Prif Weinidog yr Alban ei fod yn cynnig darlun cynhwysfawr o sylfeini ariannol y wlad ac yn profi y gallai'r Alban fwy na fforddio<sup>35</sup> bod yn wlad annibynnol lwyddiannus.

Wedi hyn, ar **23 Gorffennaf 2013**, cyhoeddwyd papur gan Lywodraeth yr Alban o'r enw [Maximising the return from oil and gas in an independent Scotland](#), sy'n amlinellu cynlluniau Llywodraeth yr Alban ar gyfer y diwydiannau olew a nwy petai annibyniaeth yn digwydd. Mae'r papur yn pwysleisio nad oes cynlluniau i gynyddu baich trethi cyffredinol y sector<sup>36</sup> ac yn cadarnhau bwriad Llywodraeth yr Alban i sefydlu comisiwn arbenigol i ddatblygu'r cynigion a amlinellwyd yn y papur. Mae'r papur yn datgan:

The **Oil and Gas Expert Commission** will build upon the approach and overarching principles set out in this paper, and provide advice on the technical application of the policy framework, which would underpin Scottish government policy in an independent Scotland.<sup>37</sup>

Mewn ymateb i'r safbwynt hwn, dywedodd y Canghellor, y Gwir Anrhydeddus George Osborne AS, mewn araith i Gynhadledd Offshore Europe yn Aberdeen ar **3 Medi 2013**:

As part of the UK, Scotland doesn't have to cope with the challenge of managing volatile oil revenues. This is no small challenge – Scottish tax revenues from oil can fluctuate from year to year from £2 billion to £12 billion. They are the most volatile tax revenues that exist. Finance ministries are always at risk of being over optimistic about how much revenue they're going to get in ... So when you hear big numbers bandied about that aren't impartial, and it sounds too good to be true – it probably is.<sup>38</sup>

Ychwanegodd:

The UK government can provide the oil and gas industry with a long-term commitment to decommissioning relief. This commitment represents around 1 per cent of UK GDP. It would represent around 12 per cent of Scottish GDP. It's for the Scottish government to explain how they would pay for that.<sup>39</sup>

---

<sup>34</sup> Mae dadansoddiad pellach o fanteision ac anfanteision yr opsiynau arian a fydd ar gael i Alban annibynnol wedi eu cynnwys yn [Standard Note: Economic aspects of Scottish independence](#) Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, 2 Medi 2013

<sup>35</sup> Newyddion y BBC, [Scottish referendum: Alex Salmond says Scotland can afford independence](#), 21 Mai 2013

<sup>36</sup> Newyddion y BBC, [Scottish independence: Ministers to set up commission on oil industry](#), 23 Gorffennaf 2013

<sup>37</sup> Llywodraeth yr Alban, [Maximising the Return from Oil and Gas in an Independent Scotland](#), Gorffennaf 2013, paragraff 5.77

<sup>38</sup> Trysorlys Ei Mawrhydi, [Speech by the Chancellor of the Exchequer, Rt Hon George Osborne MP, Offshore Europe Conference](#), 3 Medi 2013

<sup>39</sup> Ibid

Yn groes i gyhoeddiad Llywodraeth yr Alban, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig hefyd wedi cynhyrchu cyfres o bapurau yn crynhoi ei chanfyddiadau ei hun ar effaith economaidd annibyniaeth yr Alban. Ar **23 Ebrill 2013**, cyhoeddodd Trysorlys Ei Mawrhydi ddogfen, [Scotland analysis: Currency and Monetary Policy](#), a oedd yn dod i'r casgliad nad oedd yr achos dros gytuno ar undeb ariannol yn eglur, ac y byddai'n rhaid i Alban annibynnol dderbyn cyfyngiadau polisi sylweddol o dan gytundeb o'r fath.<sup>40</sup> Mewn araith i gyd-fynd â chyhoeddi'r ddogfen, ychwanegodd y Canghellor na fyddai sicrwydd y byddai'r Deyrnas Unedig a'r Alban yn gallu dod i gytundeb ar undeb ariannol.<sup>41</sup>

Ym mis **Mai 2013**, cyhoeddodd Trysorlys Ei Mawrhydi ddogfen arall o'r enw [Scotland analysis: Financial services and banking](#) a honnai y gallai miloedd o swyddi ariannol a bancio yn yr Alban symud i Loegr ar ôl annibyniaeth gan y byddai cwmnïau ariannol mawr yn yr Alban yn dymuno mynd ar drywydd marchnadoedd mwy yn Lloegr.<sup>42</sup> Roedd y papur hefyd yn honni y gallai Alban annibynnol wynebu anawsterau sylweddol o ran rhoi sicrwydd i'r rhai sy'n cynilo, ac roedd yn codi pryderon am ddyfodol cynhyrchion morgais, yswiriant car, cronfeydd pensiwn a gallu defnyddwyr yn yr Alban i ddefnyddio gwefannau cymharu prisiau.<sup>43</sup>

Mae Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar Faterion Economaidd hefyd wedi cynnal ymchwiliad i oblygiadau economaidd annibyniaeth yr Alban i'r Deyrnas Unedig, a chyhoeddodd [adroddiad](#) ar ei ganfyddiadau ar **10 Ebrill 2013**. Roedd yr adroddiad yn galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth yr Alban i fod yn fwy agored am yr hyn a fydd yn digwydd ar ôl y bleidlais ar annibyniaeth, ac y dylent gyhoeddi 'llinellau coch' ar faterion fel arian, amddiffyn, rhannu asedau a dyled, ac aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd.<sup>44</sup>

---

<sup>40</sup> Newyddion y BBC, [Scottish independence: Osborne says currency plans 'dive into uncharted waters'](#), 23 Ebrill 2013

<sup>41</sup> Ibid

<sup>42</sup> The Guardian, [Scottish independence could threaten thousands of banking jobs](#), 20 Mai 2013

<sup>43</sup> Newyddion y BBC, [Scottish independence: Treasury claims savers would not be protected](#), 20 Mai 2013

<sup>44</sup> Newyddion y BBC, [Scottish independence: Lords' committee calls for debate clarity](#), 10 Ebrill 2013

### 3.4. Ynni

Ym mis **Chwefror 2013**, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban bapur yn dwyn y teitl **Economic and competition regulation in an independent Scotland**, a oedd yn dadlau y gallai Alban annibynnol symleiddio'r tirlun rheoleiddio i fod yn fwy priodol i wlad o faint yr Alban, drwy ddwyn ynghyd y swyddogaethau hyn er mwyn creu cyd-reoleiddiwr economaidd a chystadleuaeth.<sup>45</sup>

Yn dilyn cyhoeddi'r papur, ar **7 Gorffennaf 2013**, crëwyd **Comisiwn Arbenigol ar reoleiddio ynni mewn Alban annibynnol** gan Weinidog Ynni yr Alban, Fergus Ewing ASA. Nod y Comisiwn yw adeiladu ar bapur mis Chwefror 2013 Llywodraeth yr Alban, ac wrth wneud hynny, ystyried y materion canlynol:

- Rôl Rheoleiddiwr i'r Alban
- Rôl mecanweithiau'r farchnad o ran sicrhau bod Alban annibynnol yn gallu cymryd rhan yn effeithlon mewn marchnad integredig ym Mhrydain
- Sut y bydd partneriaeth ynni strategol newydd gyda'r Deyrnas Unedig yn gweithredu
- Dewisiadau ar gyfer yr amgylchedd polisi a rheoleiddio gorau i gefnogi ynni adnewyddadwy, arloesedd a'r gadwyn gyflenwi
- Dewisiadau ar gyfer hybu prisiau ynni tecach er mwyn mynd i'r afael â thlodi tanwydd a gwella effeithlonrwydd ynni.<sup>46</sup>

Nod y Comisiwn yw cyhoeddi adroddiad erbyn diwedd 2013.

---

<sup>45</sup> Llywodraeth yr Alban, [Economic and Competition Regulation in an Independent Scotland](#), 28 Chwefror 2013

<sup>46</sup> Llywodraeth yr Alban, [News release: Expert Commission on energy regulation](#), 7 Gorffennaf 2013

Cafodd yr achos yn erbyn annibyniaeth ynni i'r Alban ei amlinellu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd, y Gwir Anrhydeddus Ed Davey AS, mewn araith i gynhadledd yng Nghaeredin ar **11 Rhagfyr 2012**. Dywedodd wrth gynadleddwyr fod pum dadl allweddol o blaid cadw'r undeb yng nghydestun materion ynni:

**First**, I believe that it is precisely because Scotland is part of the GB energy market and part of the United Kingdom that its energy industry has been able to flourish ...

**Second**, the need to match energy supply and demand requires the sophisticated networks and diverse sources that we have across the whole UK this will be critical as Scotland brings on increasing levels of intermittent renewables generation, such as wind, which will need to be balanced by other forms of generation ...

**Third**, the billions of pounds of investment in Scottish infrastructure that I've mentioned must be paid for. Under our current approach we spread this cost across the UK on the grounds that the whole of the UK benefits from the energy produced and the contribution to our renewables targets ...

**Fourth**, Scottish consumers benefit from the integration of our markets ...

**Fifth**, the single market has overwhelming support from industry. Its continuation is one their primary concerns and I noted with interest the figures published last week by Ipsos MORI that found that 72 per cent of businesses felt independence would have a negative impact.<sup>47</sup>

---

<sup>47</sup> Adran Ynni a Newid Hinsawdd San Steffan, [\*Edward Davey Speech – Scotsman Conference – Energy policy in an independent Scotland\*](#), 11 Rhagfyr 2012

### 3.5. *Amddiffyn a Trident*

Ar 25 Gorffennaf 2013, cyflwynodd Prif Weinidog yr Alban, y Gwir Anrhydeddus Alex Salmond ASA, araith yn amlinellu sut y byddai Alban annibynnol yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag amddiffyn. Dywedodd y byddai annibyniaeth yn caniatáu i'r Alban ddyfeisio galluoedd mwy addas – yn seiliedig ar anghenion modern yr Alban ac anghenion ei chymdogion a'i chyfeillion, ac na fyddai'r Alban o hynny ymlaen wedi ei chlymu at bolisiau'r Deyrnas Unedig, polisiau y mae mwyafrif helaeth pobl yr Alban yn eu gwrthod.<sup>48</sup> Ychwanegodd yn benodol:

It is inconceivable that an independent Scotland would have taken part in the illegal and costly invasion of Iraq – costly not just in terms of money, but in terms of human life. And an independent Scotland will no longer keep Europe's largest concentration of weapons of mass destruction within 30 miles of our largest city.<sup>49</sup>

Roedd araith y Prif Weinidog hefyd yn atgyfnerthu ymrwymiad y byddai Alban annibynnol yn parhau i fod yn rhan o undeb amddiffyn ehangach fel aelod di-niwclear o **NATO**.<sup>50</sup> Byddai hyn yn golygu diarfogï a chael gwared ar y **taflegrau niwclear Trident** sy'n cael eu cadw yng nghanolfan Faslane ar Gare Loch.

Cwestiynwyd safbwynt Prif Weinidog yr Alban ar wahardd arfau niwclear ac ymuno â NATO ar yr un pryd gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban, y Gwir Anrhydeddus Michael Moore AS hefyd, a ddywedodd ei bod yn gwbl eglur y byddai'n rhaid i'r Alban dderbyn bod NATO yn gynghrair niwclear fel amod ymaelodi, ac y byddai'n beth hynod anodd ei wneud.<sup>51</sup> Mae Gweinidogion y Deyrnas Unedig a'r Alban hefyd wedi anghytuno ynghylch pa lywodraeth fyddai'n talu am gael gwared ar arfau niwclear oddi yno petai annibyniaeth yn digwydd.<sup>52</sup>

Mae Trident hefyd wedi bod yn destun adroddiad, [Terminating Trident – Days or Decades?](#), a gyhoeddwyd gan Bwyllgor Materion yr Alban Tŷ'r Cyffredin ar 25 Hydref 2012 fel rhan o ymchwiliad parhaus y Pwyllgor i'r refferendwm ar ymwahanu i'r Alban.

O ran llunio polisi amddiffyn, pwysleisiodd Prif Weinidog yr Alban hefyd y dylai Llywodraeth annibynnol yr Alban yn y dyfodol weithio gyda'r Senedd i gyrraedd consensws ar strategaeth amddiffyn yr Alban, a fyddai'n adeiladu ar esiampl Comisiynau Amddiffyn trawsbleidiol Denmarc.<sup>53</sup> Mewn araith ar 16 Ionawr 2013, awgrymodd y Prif Weinidog hefyd y gallai cyfansoddiad ysgrifenedig ar gyfer Alban annibynnol gynnwys materion yn ymwneud ag arfau niwclear a defnyddio lluoedd arfog yr Alban mewn rhyfeloedd yn y dyfodol (mae rhagor o wybodaeth

---

<sup>48</sup> Llywodraeth yr Alban, [News Release: First Minister sets out vision on defence](#), 25 Gorffennaf 2013

<sup>49</sup> Ibid

<sup>50</sup> Ibid

<sup>51</sup> The Guardian, [Alex Salmond told nuclear ban out of line with being in Nato](#), 15 Awst 2013

<sup>52</sup> Newyddion y BBC, [Scottish independence: Ministers at odds over Trident removal costs](#), 2 Gorffennaf 2013

<sup>53</sup> Llywodraeth yr Alban, [News Release: First Minister sets out vision on defence](#), 25 Gorffennaf 2013

am y cyfansoddiad ysgrifenedig arfaethedig ar gyfer Alban annibynnol yn adran 3.6 isod):

Scotland is currently the home of Western Europe's largest concentration of weapons of mass destruction. They are based on the River Clyde, within 30 miles of Scotland's largest city. **A constitutional ban on the possession of nuclear weapons** would end that obscenity.

And thirdly, is the issue of the use of our armed forces and what constitutional safeguards should be established for the use of Scottish troops. This is of great and recent relevance. In 2003, the Westminster Parliament was effectively misled into sanctioning the illegal invasion of Iraq. We should therefore explore what **parliamentary and constitutional safeguards should be established for the use of Scottish forces**.<sup>54</sup>

Mae safbwynt Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar oblygiadau annibyniaeth yr Alban ar gyfer amddiffyn wedi ei amlinellu yn ei [\*\*thystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor Amddiffyn Tŷ'r Cyffredin\*\*](#), a gyhoeddwyd ar **17 Hydref 2012**. Gan wneud sylwadau ynghylch cyhoeddi'r dystiolaeth, rhoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol Amddiffyn, y Gwir Anrhydeddus Philip Hammond AS, amlinelliad o'r manteision amddiffyn petai'r Alban yn parhau i fod yn aelod o'r Deyrnas Unedig:

As part of the UK, Scotland benefits from high levels of protection and security provided by the UK's sophisticated defence capabilities, including highly capable, well equipped and well supported armed forces. The UK also has a strong network of alliances and relationships, which, together with our defence capabilities, ensure national security and resilience, protecting our people, economy, infrastructure, territory and way of life. They help to shape a stable world through actions beyond our borders to reduce the likelihood of risks affecting the UK or our direct interests overseas.<sup>55</sup>

Ychwanegodd:

Scotland ... is home to major Navy, Army and RAF bases and other key facilities. Scots and Scottish-recruited units are an integral part of the UK armed forces. And the defence industry in Scotland, including its shipbuilding industry, plays a key role in equipping and supporting the UK armed forces.<sup>56</sup>

Cynhaliwyd sesiwn dystiolaeth olaf Pwyllgor Amddiffyn Tŷ'r Cyffredin mewn perthynas â'i ymchwiliad ar 2 Gorffennaf 2013. Nid yw'r Pwyllgor wedi cyhoeddi ei adroddiad eto.

---

<sup>54</sup> Llywodraeth yr Alban, [\*First Minister Alex Salmond: Foreign Press Association speech\*](#), Llundain, 16 Ionawr 2013

<sup>55</sup> Swyddfa'r Alban a'r Weinyddiaeth Amddiffyn, Cyhoeddiad. [\*Defence Secretary: Scotland is better protected and more secure as part of UK\*](#), 17 Hydref 2012

<sup>56</sup> Ibid

### 3.6. *Cyfansoddiad ysgrifenedig*

Mewn araith i Gymdeithas y Wasg Dramor yn Llundain ar **16 Ionawr 2013**, dywedodd Prif Weinidog yr Alban:

Following a yes vote in 2014, the first independent Scottish parliament will be elected in May 2016. One of the first, most fundamental and exciting tasks of that parliament will be to establish the process for Scotland's first written constitution through a constitutional convention ...

We will make it one of the first duties of the parliament of an independent Scotland to establish a convention to draw up that written constitution. And we will return to our older constitutional tradition of the people's sovereignty, by making sure the people are directly involved in that process.<sup>57</sup>

Ychwanegodd fod gan Lywodraeth yr Alban gynigion penodol ynghylch rhai o'r mesurau y gellid eu cynnwys mewn cyfansoddiad ysgrifenedig, ac amlinellodd dair enghraifft y gallai Confensiwn Cyfansoddiadol yr Alban yn y dyfodol eu hystyried:

At the moment, the UK Government's austerity measures and welfare cuts are raising questions about how people's rights to vital social services can be protected. In Scotland we have a policy of the right to **free education** in keeping with our history as the nation which pioneered universal education. We also have **homelessness** legislation which is proving effective by granting rights to people who are made involuntarily homeless. **There is an argument for embedding those provisions as constitutional rights.**<sup>58</sup>

Yn dilyn araith y Prif Weinidog, cyhoeddwyd [\*\*Scotland's Future: from the Referendum to Independence and a Written Constitution\*\*](#) gan Lywodraeth yr Alban ym mis **Chwefror 2013**. Mae'r ddogfen yn benodol yn amlinellu proses ar gyfer creu cyfansoddiad ysgrifenedig petai'r Alban yn pleidleisio o blaid annibyniaeth. Mae'n datgan:

The Scottish Government's proposal is that an independent Scotland should have a written constitution which expresses our values, embeds the rights of its citizens and sets out clearly how institutions of state interact with each other and serve the people. This will contrast with the UK's largely unwritten constitution in which the Westminster Parliament can do anything except bind its successors.<sup>59</sup>

Ychwanega fod y broses y bydd yr Alban yn ei dilyn er mwyn mabwysiadu cyfansoddiad ysgrifenedig bron â bod mor bwysig â'r cyfansoddiad ei hun, a:

The Scottish Government proposes that a newly elected independent Scottish Parliament should convene a constitutional convention to draft the written constitution.<sup>60</sup>

---

<sup>57</sup> Llywodraeth yr Alban, [\*First Minister Alex Salmond: Foreign Press Association speech\*](#), Llundain, 16 Ionawr 2013

<sup>58</sup> Ibid

<sup>59</sup> Llywodraeth yr Alban, [\*Scotland's Future: from the Referendum to Independence and a Written Constitution\*](#), Chwefror 2013, paragraff 1.4

<sup>60</sup> Ibid, paragraff 1.7



Adroddodd y BBC ar **8 Mawrth 2013** fod Dirprwy Brif Weinidog yr Alban, Nicola Sturgeon ASA, wedi dweud wrth gynhadledd awdurdodau lleol y byddai cyfansoddiad ysgrifenedig newydd hefyd yn diogelu hawliau cynghorau'r Alban. Yn ôl yr adroddiadau, dywedodd:

I can announce today we will also argue for Scotland's constitution to guarantee the status and rights of local government. The role of Scottish local authorities should be entrenched in a written constitution; a democratic settlement that only independence offers. Such constitutional protection is mainstream in developed democracies such as Germany, Denmark and Sweden.<sup>61</sup>

Gwnaed galwadau am gyfansoddiad ysgrifenedig petai pleidlais 'na' yn y refferendwm hefyd, a hynny gan gyn Brif Weinidog Prydain, y Gwir Anrhydeddus Gordon Brown AS, mewn cyfarfod o'r grŵp 'United with Labour' yn Glasgow ar **2 Medi 2013**. Dywedodd wrth y rhai a oedd yn bresennol:

We pool and share resources and we do so so that we have equal economic, social and political rights for working people, for pensioners, for people in need of healthcare or unemployed people in need of a job, throughout the whole of the United Kingdom.

I believe we should write this into the constitution, for the first time making it explicit that the purpose of the Union is not just defence security, is not just trading relationships, but to pool and share our resources for the benefit of working people, the elderly, children and families, in all parts of the United Kingdom.

I believe it makes sense now, and is something we should have done in government, to write down in British law, that the purpose of the Union is to achieve these goals.

I would also write in the British constitution that the Scottish Parliament is permanent, irreversible and indissoluble.<sup>62</sup>

---

<sup>61</sup> BBC News, [Scottish independence: Clash over Scottish constitution](#), 8 Mawrth 2013

<sup>62</sup> Newyddion y BBC, [Scottish Independence: Gordon Brown in written constitution call](#), 2 Medi 2013

### 3.7. *Aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd*

Ar 26 Chwefror 2013, cadarnhaodd Dirprwy Brif Weinidog yr Alban, Nicola Sturgeon ASA, y byddai'n mynd ati i drafod parhau ag aelodaeth yr Alban o'r Undeb Ewropeaidd, gan ddatgan:

By March 2016, we would have agreed necessary transitional arrangements with the UK Government and we would have established a constitutional platform for independence. We also expect that Scotland's independence would have been accepted by the international community, and that agreement would have been obtained for our continued membership of the European Union.<sup>63</sup>

Fodd bynnag, ychwanegodd:

The Scottish Government does not take the process of EU membership for granted. We understand that it is essential to respect the legitimacy of existing EU treaties. We also understand that our continued membership will require negotiations, and the agreement of other nations.<sup>64</sup>

O ran trafodaethau o'r fath, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog fod Llywodraeth yr Alban wedi bod yn gohebu â'r Comisiwn Ewropeaidd eisoes ynghylch parhau i fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd petai pleidlais 'ie', a chadarnhaodd fod y Comisiwn wedi ei gwneud yn eglur na fydd yn rhoi barn fanwl nes i aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd gyflwyno sefyllfa benodol iddo.<sup>65</sup>

Ychwanegodd y Dirprwy Brif Weinidog:

We consider that it is possible to prepare and publish a "precise scenario" that will provide the European Commission with the information it needs to consider Scotland's intention to remain in the EU after independence, and we continue to call on the UK government - as existing member state - to join with us in making such a submission.<sup>66</sup>

Ychydig cyn araith y Dirprwy Brif Weinidog, ar 12 Chwefror 2013, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei chanfyddiadau ar yr effaith y byddai annibyniaeth yn ei chael ar aelodaeth yr Alban o'r Undeb Ewropeaidd. Roedd y papur, [Scotland analysis: Devolution and the impact of Scottish independence](#), hefyd yn cynnwys barn gyfreithiol fanwl gan yr Athro James Crawford SC a'r Athro Alan Boyle ynghylch beth fyddai statws cyfreithiol Alban annibynnol a gweddill y Deyrnas Unedig mewn cyfraith ryngwladol. O ran aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd, dywed y farn gyfreithiol ei bod yn anodd gweld sut y gallai'r Alban osgoi'r broses ymuno ar gyfer gwladwriaethau newydd yng Nghytuniadau'r Undeb

---

<sup>63</sup> Llywodraeth yr Alban, y Dirprwy Brif Weinidog Nicola Sturgeon, [Scotland's relationship with Europe](#), Canolfan Polisi Ewropeaidd, Brwsel, 26 Chwefror 2013

<sup>64</sup> Llywodraeth yr Alban, y Dirprwy Brif Weinidog Nicola Sturgeon, [Scotland's relationship with Europe](#), Canolfan Polisi Ewropeaidd, Brwsel, 26 Chwefror 2013

<sup>65</sup> Ibid

<sup>66</sup> Ibid

Ewropeaidd.<sup>67</sup> Mae'r papur yn ychwanegu y byddai hyn yn golygu dilyn y prosesau canlynol:

According to Article 49 of the Treaty of the European Union, new states need to apply for membership, obtain unanimous support of the European Council for this request and have membership approved through an accession treaty, ratified by the parliaments of all the Member States.<sup>68</sup>

Mewn araith gynharach ar **11 Rhagfyr 2012**, dadleuodd yr Ysgrifennydd Gwladol Ynni a Newid Hinsawdd, y Gwir Anrhydeddus Ed Davey AS, na fyddai Llywodraeth yr Alban yn gallu rhoi gwarant ynghylch telerau aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer Alban annibynnol, gan ychwanegu:

The ramifications of this are huge on a whole range of matters - currency, subsidies, the rebate, border controls - and it cannot be assumed that Scotland would simply keep hard-won concessions negotiated by the UK.<sup>69</sup>

Mae rhagor o wybodaeth am y drafodaeth ynghylch annibyniaeth yr Alban ac aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd ar gael yn Nodyn Safonol Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, [Scotland, independence and the EU](#), a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2011.

---

<sup>67</sup> Llywodraeth Ei Mawrhydi, [Scotland analysis: Devolution and the implications of Scottish independence](#), Chwefror 2013, Paragraff 3.10

<sup>68</sup> Ibid, paragraff 3.15

<sup>69</sup> Adran Ynni a Newid Hinsawdd San Steffan, [Edward Davey speech - Scotsman conference - Energy policy in an independent Scotland](#), 11 Rhagfyr 2012

### 3.8. *Undeb cymdeithasol?*

Yn naturiol, byddai pleidlais o blaid annibyniaeth i'r Alban yn golygu y byddai'r Alban yn gadael y Deyrnas Unedig ac yn cymryd cyfrifoldeb dros ei holl faterion ei hun (yn ymwneud â pholisi cartref a thramor). Fodd bynnag, mae Prif Weinidog yr Alban wedi nodi rhai meysydd o ddiddordeb cyffredin rhwng yr Alban a'r Deyrnas Unedig a fyddai'n parhau ar ôl annibyniaeth.<sup>70</sup> Yn ogystal ag undeb ariannol, dywedodd y gallai meysydd o'r fath gynnwys:

- rhannu brenhiniaeth;
- rhannu trefniadau darlledu;
- rhannu trefniadau amddiffyn a thollau (er enghraifft, ffiniau cyffredin yr ynys).

Mae Llywodraeth yr Alban hefyd wedi datgan cefnogaeth i'r posibilrwydd o ddinasyddiaeth ddeuol, a fyddai'n golygu y gallai dinasyddion yr Alban gadw pasbort Prydeinig ar ôl annibyniaeth.<sup>71</sup> Ar hyn o bryd nid yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gwrthod cenedligrwydd deuol i rai sydd â dinasyddiaeth unrhyw wlad arall.

### 3.9. *Y canlyniadau yn sgil pleidlais 'Na': dewisiadau cyfansoddiadol eraill*

Yn ôl yr Athro James Mitchell o Brifysgol Caeredin, mae tystiolaeth yn dangos yn gyson bod y farn gyhoeddus yn yr Alban yn ffafrio rhagor o bwerau i Holyrood heb fynd mor bell ag annibyniaeth<sup>72</sup> er na fydd y dewis hwn ar gael ym mis Hydref 2014. O ganlyniad, mae'n dadlau bod pleidlais 'na' yn annhebygol o ddod â diwedd i'r ddadl.<sup>73</sup> Gwnaeth yr Athro Stephen Tierney, hefyd o Brifysgol Caeredin, sylwadau tebyg:

We do not know yet how the referendum on independence will go in 2014, but in the more likely event of a 'No' vote, we might anticipate not the end of the devolution story but rather the beginning of a new chapter in the constitutional realignment of the British unions.<sup>74</sup>

---

<sup>70</sup> The Guardian, [Alex Salmond's Hugo Young lecture - full text](#), 25 Ionawr 2012

<sup>71</sup> The Scotsman, [Scottish Independence: Key questions answered](#), 26 Gorffennaf 2013

<sup>72</sup> The Guardian, [The Scottish independence referendum will not offer what most Scots want](#), 15 Hydref 2012

<sup>73</sup> Ibid

<sup>74</sup> Tierney, S. 'The Three Hundred and Seven Year Itch': Scotland and the 2014 Independence Referendum'. yn Qvortrup, M gol. 2013. *The British Constitution: Continuity and Change, A Festschrift for Vernon Bogdanor*, Hart: Portland, tudalen 152

O ganlyniad, mae'r Athro Mitchell yn credu y byddai modd edrych ar nifer o fodelau posibl o ddatganoli er mwyn bodloni gofynion yr Alban petai pleidlais 'na' yn y refferendwm:

More powers includes a bewildering array of underdefined options advocated by a wide range of individuals and groups. The think tank Reform Scotland proposes "Devo+", the Liberal Democrats are due to report on a federal solution, the Labour party has set up a commission to look again at devolution, and Scottish trade unionists have been engaged in serious debates on the powers needed to redistribute wealth and protect services in Scotland.<sup>75</sup>

Mae rhai o'r opsiynau hyn wedi'u crynhoi isod:

- **Y sefyllfa fel y mae (hynny yw, yn dilyn y newidiadau a wneir gan Ddeddf yr Alban 2012):** Byddai hyn yn golygu peidio â newid dim ar y setliad presennol, gan barhau'r model pwerau a gedwir yn ôl a amlinellir yn *Neddf yr Alban 1998* yn ogystal â datganoli cyfyngedig o ran trethi a rhoi pwerau deddfu a gweithredol mewn rhai meysydd (arfau aer, trwyddedau dibyniaeth, terfyniadau cyflymder cenedlaethol) wedi'u darparu drwy *Ddeddf yr Alban 2012*.
- **Devo Plus:** Mae'r dewis hwn wedi'i gysylltu'n bennaf â'r felin drafod 'Reform Scotland' sydd wedi sefydlu grŵp trawsbleidiol [Devo Plus](#). Yn ôl y wefan, byddai Devo Plus yn golygu mai Senedd yr Alban, i'r graddau y bo hynny'n bosibl, fyddai'n codi mwyafrif yr arian y mae'n ei wario. Yn ôl y wefan, byddai hyn yn cynnwys datganoli treth incwm a threth gorfforaethol i Senedd yr Alban, ond byddai Yswiriant Gwladol a Threth ar Werth yn aros fel materion wedi'u cadw'n ôl yn San Steffan.<sup>76</sup> Byddai amddiffyn, pensiynau a materion tramor hefyd yn aros ar lefel y Deyrnas Unedig. Yn ôl y sylwebydd Alan Trench (yn ysgrifennu ym mis Mawrth 2012), y dewis hwn erbyn hyn yw dewis amgen yr unoliaethwyr i gynigion lle Calman ac annibyniaeth.<sup>77</sup>
- **Devolution Max:** Mae'n debyg y byddai'r dewis hwn yn golygu annibyniaeth ariannol lawn (hynny yw, mai'r Alban fyddai'n gyfrifol am godi a gwario'i harian, gyda chyfran yn cael ei thalu i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer gwasanaethau cyffredin fel amddiffyn). O ganlyniad byddai'r Deyrnas Unedig yn cadw'r cyfrifoldeb dros arian a pholisi ariannol yn ogystal ag amddiffyn a materion tramor. Ar hyn o bryd nid oes yr un o'r pleidiau unoliaethol yn ffafrio'r dewis hwn.

---

<sup>75</sup> The Guardian, [The Scottish independence referendum will not offer what most Scots want](#), 15 Hydref 2012

<sup>76</sup> Devo Plus, [What is Devo Plus?](#)

<sup>77</sup> Alan Trench, [Intergovernmental relations and Scotland's constitutional debates: Presentation by Alan Trench for seminar on "Scotland's Constitutional Future"](#), Prifysgol Caeredin, 16 Mawrth 2012

## 4. Y goblygiadau i Gymru

Petai'r Alban yn pleidleisio dros annibyniaeth, byddai hynny'n cael effaith sylweddol ar Gymru a'r rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig a fyddai'n weddill. Mae hyn yn bennaf oherwydd mai Lloegr wedyn fyddai'r wlad fwyaf yn y Deyrnas Unedig, o ran daearyddiaeth a phoblogaeth. Dywedodd Prif Weinidog Cymru, y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, ar 8 Tachwedd 2012, y byddai'n gofidio'n fawr petai'r Albanwyr yn penderfynu o blaid annibyniaeth, gan ychwanegu:

A UK without the Scots would be thrown out of balance. England would constitute nearly 92 per cent of the population of the new state, leaving Wales and Northern Ireland with the remaining 8 per cent.<sup>78</sup>

Awgrymodd y Prif Weinidog hefyd na fyddai'r Deyrnas Unedig a fyddai'n weddill yn gytbwys yn wleidyddol, ac y byddai hynny'n gwanhau llais Cymru ar lefel y Deyrnas Unedig:

.. at present we share with the Scots an approach to economic and social policy questions which is broadly social democratic/communitarian in its ethos, whereas the inclination of the current UK Government is for more market-based approaches as far as England is concerned. Losing the Scots would significantly weaken Wales in these debates.<sup>79</sup>

Byddai annibyniaeth i'r Alban hefyd yn codi cwestiynau sylfaenol o ran setliad datganoli presennol Cymru. Gallai'r rhain gynnwys y meysydd canlynol:

- Y ffordd y caiff **Cymru ei hariannu**, yn enwedig gan fod rhai wedi dadlau bod Fformiwla Barnett yn hanesyddol wedi diogelu mantais yr Alban dros Loegr (a thros Gymru);
- Y mecanweithiau ar gyfer **cysylltiadau rhynglywodraethol a rhyngseneddol**, yn enwedig sut y byddai Cyd-gyngor Gweinidogol newydd yn gweithredu ac a fyddai angen newid aelodaeth Cyngor Prydain-Iwerddon neu Gynulliad Seneddol Prydain-Iwerddon;
- **Cynrychiolaeth Cymru** a Gogledd Iwerddon ar lefel Lloegr/y Deyrnas Unedig fyddai'n weddill, er enghraifft o ran cyfansoddiad Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi;
- Ystyriaethau ymarferol penodol megis **enw swyddogol** y wladwriaeth newydd a fyddai'n weddill a **dylunio baner newydd**.

---

<sup>78</sup> Wales Online, [In full: First Minister's lecture to the LSE on the future of the Union](#), 8 Tachwedd 2012

<sup>79</sup> Ibid

Gallai'r materion hyn felly danseilio argymhellion **Comisiwn Silk** sy'n dal i fynd rhagddo a chomisiwn diweddar **McKay**, gan y byddai pleidlais o blaid annibyniaeth i'r Alban yn gofyn am newid sylfaenol yn strwythurau cyfansoddiadol y Deyrnas Unedig. Mae'r mater hwn wedi ei gydnabod eisoes gan Lywodraeth Cymru, a ddywedodd ym mis Ionawr 2012 y byddai Alban annibynnol yn arwain at ailystyried yn sylweddol berthynas gyfansoddiadol Cymru o fewn Teyrnas Unedig wedi'i hailstrwythuro.<sup>80</sup>

Fodd bynnag, petai pleidlais 'na', efallai y bydd setliad Cymru yn dal i wynebu newid er mwyn mynd i'r afael â phroblemau ac anghysonderau cyfansoddiadol presennol ledled y Deyrnas Unedig. Yn ôl yr Athro Stephen Tierney:

It is widely perceived that the devolution settlement for Scotland, and indeed for Wales and Northern Ireland, is unsatisfactory in that the role of devolved governments in central decision-making through a properly formalised system of inter-governmental relations is potentially a longer-term problem. Scope remains for enduring problems based upon the institutional design of the system stemming from what is essentially the ad hoc, or some might say incomplete, nature of the settlement.

... the result is that there is not a formalised, and legally protected, set of mechanisms in place for occasions where serious competence disputes arise. Instead, institutions operate largely at the behest of the centre, and therefore depend upon the goodwill of the central Government and Parliament for their continuation. We see this in the informal arrangements for inter-executive co-operation. But in addition, the potential for tensions to be exacerbated is also evident at the level of inter-parliamentary relations between the Scottish Parliament and Westminster.<sup>81</sup>

Yn ôl Prif Weinidog Cymru, gellid goresgyn problemau o'r fath drwy sicrhau bod datganoli yn fwy o ddigwyddiad na phroses,<sup>82</sup> gan ychwanegu:

Once the Scottish referendum is out of the way, I want to see reforms which complement one another, reforms which viewed together create the coherent constitution which the UK currently lacks.<sup>83</sup>

Dywedodd y Prif Weinidog hefyd ei fod eisiau gweld cyfansoddiad ysgrifenedig ar gyfer y Deyrnas Unedig a fyddai'n gwarantu parhad yr holl ddeddfwrfeydd datganoledig yn ogystal â nodweddion parhaol yr Undeb, oni fyddent hwy eu hunain yn cytuno i'w diddymu eu hunain.<sup>84</sup> Ategodd hefyd y galwadau blaenorol<sup>85</sup> i sefydlu confensiwn cyfansoddiadol ar gyfer dyfodol y Deyrnas Unedig i edrych ar ddatblygu cyfansoddiad o'r fath.

---

<sup>80</sup> Newyddion y BBC, [Welsh politicians scrutinise Scotland referendum debate](#), 11 Ionawr 2012

<sup>81</sup> Tierney, S. 'The Three Hundred and Seven Year Itch': Scotland and the 2014 Independence Referendum'. yn Qvortrup, M gol. 2013. *The British Constitution: Continuity and Change, A Festschrift for Vernon Bogdanor*, Hart: Portland, tudalen 152

<sup>82</sup> Newyddion y BBC, [Wales' first minister calls for end to devolution tinkering](#), 17 Medi 2013

<sup>83</sup> Ibid

<sup>84</sup> Wales Online, [Carwyn Jones calls on UK Government to create 'binding, durable settlement' with Wales](#), 17 Medi 2013

<sup>85</sup> Mae'r rhain yn cynnwys: [Wales and the Future of the United Kingdom](#) (30 Mawrth 2012); [Constitutional Convention for the UK?](#) (12 Gorffennaf 2012); [Written and oral evidence to the House of Commons' Political and Constitutional Reform Committee](#) (6 Awst 2021); [Future of the Union](#) (8 Tachwedd 2012)

Cefnogwyd y syniad o gonfensiwn ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan gan Brif Weinidog Prydain, y Gwir Anrhydeddus David Cameron AS, arweinydd Ceidwadwyr yr Alban, Ruth Davidson<sup>86</sup> a'r academydd cyfansoddiadol o bwys, yr Athro Vernon Bogdanor, a ddywedodd ym mis Mawrth 2013:

The future of Scotland should not be seen in isolation from that of the rest of the UK. The need, therefore, is for a UK-wide constitutional convention, with popular participation, to consider both how devolution can evolve in the non-English parts of the United Kingdom, but also how the English can be better governed even in the absence of an "answer" to the English question. Such a convention would strengthen the unity of the UK.<sup>87</sup>

Yn ddiweddar, cynhaliodd Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin ymchwiliad i ystyried a oes angen confensiwn cyfansoddiadol. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor ym mis **Awst 2012**, dywedodd Prif Weinidog Cymru:

The driving force for me is the developing constitutional debate in Scotland. Those of us who are committed to the UK cannot pretend that, if Scotland goes, the remaining truncated Union could simply carry on as before. In reality, a great deal would have changed and the long-term consequences might be profound. So, rather than simply allow events in Scotland to unfold, and to react passively to whatever happens when it happens, I believe that political and civil society across the UK should be talking now about what kind of UK we want to see.<sup>88</sup>

Yn ôl Prif Weinidog Cymru, dylai confensiwn ystyried y materion canlynol a fyddai'n sail ar gyfer Teyrnas Unedig newydd a fyddai'n wleidyddol amrywiol, yn fwy llac, ac yn cyfuno sawl canolfan atebolrwydd democrataidd:<sup>89</sup>

- Y dylai pedair gwlad y Deyrnas Unedig fod ag aelodaeth gyfartal o **Dŷ'r Arglwyddi diwygiedig ar sail diriogaethol**;
- Y dylid datblygu **ffordd ddiwygiedig o ymdrin â busnes yr Undeb Ewropeaidd** fel bod buddiannau'r gwledydd datganoledig yn cael eu hystyried yng nghyfarfodydd Cyngor y Gweinidogion (mae'r Prif Weinidog wedi galw hwn yn 'Gwestiwn Pen-y-bont ar Ogwr');
- Y dylai **cyfansoddiad ysgrifenedig** fod yn sail i wladwriaeth y Deyrnas Unedig.

---

<sup>86</sup> The Telegraph, [Tories back new UK constitutional settlement](#), 5 Hydref 2012

<sup>87</sup> The Guardian, [The one-state solution to England's role in a devolved UK](#), 25 Mawrth 2013

<sup>88</sup> Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin, [Written evidence submitted by the Rt Hon Carwyn Jones AM, First Minister of Wales](#), 16 Mehefin 2012

<sup>89</sup> Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin, [Written evidence submitted by the Rt Hon Carwyn Jones AM, First Minister of Wales](#), 16 Mehefin 2012



Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar **28 Mawrth 2013**. Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod rhywfaint o ddadl o blaid cael confensiwn i edrych ar strwythur cyfansoddiadol y Deyrnas Unedig yn y dyfodol<sup>90</sup> ond:

the English Question—the fact that England, unlike the other parts of the Union, is still governed centrally, and, outside London, does not have its own devolved settlement—must be addressed first.<sup>91</sup>

Mae galwadau ar i'r Deyrnas Unedig gael ei 'hadfywio' drwy fabwysiadu trefniadau a strwythurau ffederal wedi eu gwneud hefyd gan Ddirprwy Lywydd y Cynulliad, David Melding AC.<sup>92</sup> Mae Is-gadeirydd y Blaid Geidwadol, Michael Fabricant AS, wedi galw am Ddeddf Uno newydd rhwng Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon er mwyn disodli system drwsgl, sy'n aml yn annealladwy o wahanol bwerau, gan sefydlu system sy'n cynnig yr un hawliau i bawb.<sup>93</sup>

---

<sup>90</sup> Ty'r Cyffredin, Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol, *[Do we need a constitutional convention for the UK?](#)*, Pedwerydd Adroddiad Sesiwn 2012-13, 28 Mawrth 2013, paragraff 112

<sup>91</sup> Ibid, paragraff 113

<sup>92</sup> Click on Wales, *[The Reformed Union: A British Federation](#)*, Pennod 3: Political institutions in a British federation, 20 Chwefror 2012

<sup>93</sup> The Telegraph, *[England's grievances would be addressed by a new Act of Union](#)*, 22 Awst 2013